ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales
First Release
Datganiad Cyntaf

SDR 116/2013 23 Gorffennaf 2013

# Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (seiliedig ar 2011)

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r prif amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2011 ar gyfer awdurdodau lleol Cymru. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent wedi'u seilio ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau cynt. Nid yw amcanestyniadau a wneir fel hyn yn cymryd i ystyriaeth effeithiau polisïau llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog ar lefelau a dosbarthiad y boblogaeth, ac ar newid ynddi, yn y dyfodol.

Mae'r amcanestyniadau hyn sy'n seiliedig ar 2011 yn amcanestyniadau seiliedig-ar-dueddiadau ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2011 hyd 2036. Am eu bod yn seiliedig ar dueddiadau ânt yn llai sicr y pellaf ymlaen yr eir â hwy. Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2011, sef yr amcangyfrifon poblogaeth cyntaf i gael eu seilio ar Gyfrifiad 2011. Maent hefyd yn cynnwys yr amcangyfrifon poblogaeth a mudo diwygiedig ar gyfer canol 2002 hyd ganol 2010 a gyhoeddwyd gan yr ONS ar 30 Ebrill 2013 yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011.

## Allbynnau

Ar hyn o bryd dim ond y prif amcanestyniadau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer pob awdurdod lleol. Maent wedi'u seilio ar ddata ar enedigaethau, marwolaethau a mudo ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2011. Ystyrir felly mai'r prif amcanestyniadau hyn sy'n adlewyrchu orau batrymau demograffig diweddar yr adeg y'u lluniwyd. Bydd amcanestyniadau amrywiadol hefyd yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir, er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth.

Mae'r Datganiad Cyntaf hwn a chyfres o dablau wedi'u cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Mae adroddiad manwl ar fin cael ei gyhoeddi i roi gwybodaeth gryno ar yr Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar 2011. Bydd yr adroddiad yn rhoi cefndir i'r amcanestyniadau, y fethodoleg a ddefnyddiwyd, a throsolwg mwy cyflawn o'r canlyniadau, gan gynnwys yr amcanestyniadau amrywiadol.

## Pwyntiau allweddol:

**Y Newid Amcanol yn y Boblogaeth**

- Rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cynyddu i'r rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru rhwng 2011 a 2036.
- Yn achos nifer o awdurdodau rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cynyddu erbyn 2026 ac yna'n gostwng yn y degawd dilynol, ond yn para'n uwch nag yn 2011.

**Statistician:** Tony Whiffen **Tel:** 029 2082 1595 **Email:** ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk
**Next update:** August 2013 (provisional)
**Twitter:** www.twitter.com/ystadegaucymru | www.twitter.com/statisticswales

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 3332**
**www.cymru.gov.uk/ystadegau**

Issued by Knowledge and Analytical Services
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**
**www.wales.gov.uk/statistics**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Yn achos Ynys Môn, Sir Fynwy a Blaenau Gwent rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn is yn 2036 nag yn 2011.
- Mewn canrannau rhagwelir y bydd y twf yn y boblogaeth ar ei uchaf yng Nghaerdydd, Wrecsam, Casnewydd ac Abertawe.

**Mudo Tybiedig**

O dan y prif amcanestyniadau mae'r tybiaethau mudo yn seiliedig ar y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2011 felly:

- Mae'r mudo mewnol net blynyddol tybiedig (h.y. o'r tu mewn i'r DU) yn llai na mil i bob awdurdod, ond i rai mae'n llai na sero (h.y. i rai mae all-lif cyffredinol o fudwyr i rannau eraill o'r DU).
- Mae'r mudo rhyngwladol net blynyddol tybiedig (o dramor) yn fras yn rhai cannoedd neu lai i nifer o awdurdodau.
- Effaith yr holl dybiaethau o ran mudo mewnol a rhyngwladol yw bod cyfanswm tybiedig y mudo net blynyddol yn rhai cannoedd fwy neu lai i'r rhan fwyaf o awdurdodau ac yn llai na sero yn achos Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent.

**Genedigaethau a Marwolaethau Amcanol**

Mae'r tybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau yn y prif amcanestyniadau yn dangos:

- Bod mwy o farwolaethau na genedigaethau ar hyn o bryd i rai awdurdodau.
- Y rhagwelir, erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau, y bydd hyn yn wir am fwy o awdurdodau, wrth i enedigaethau ostwng ac i farwolaethau gynyddu.

Mae gwybodaeth fanwl ar gael drwy wefan ryngweithiol StatsCymru, gan gynnwys y boblogaeth amcanol yn ôl oedran a rhyw:

https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalog

**Cyfanswm Amcanol y Boblogaeth**

Mae Tabl 1 yn dangos y rhagwelir o dan y prif amcanestyniadau y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cynyddu i'r rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru rhwng 2011 a 2036. Yn achos nifer o awdurdodau, gan gynnwys Conwy, Sir y Fflint, Powys, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen, rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cynyddu erbyn 2026 ac yna'n gostwng, ond yn para'n uwch nag yn 2011. Yn achos Ynys Môn a Sir Fynwy rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu erbyn 2021 ond y bydd yn is yn 2036 nag yn 2011, ac yn achos Blaenau Gwent rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn gostwng yn gyson dros oes yr amcanestyniad.

**Tabl 1: Cyfanswm Amcanol y Boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol, Cymru, 2011-2036**

| | 2011 | 2016 | 2021 | 2026 | 2031 | 2036 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 69,900 | 70,200 | 70,300 | 69,900 | 69,100 | 68,100 |
| Gwynedd | 121,500 | 123,100 | 125,200 | 127,600 | 129,900 | 131,800 |
| Conwy | 115,300 | 116,100 | 116,700 | 116,800 | 116,300 | 115,300 |
| Sir Ddinbych | 93,900 | 96,000 | 98,100 | 99,700 | 100,800 | 101,500 |
| Sir y Fflint | 152,700 | 154,500 | 155,800 | 156,200 | 155,700 | 154,500 |
| Wrecsam | 135,100 | 141,500 | 147,700 | 153,400 | 158,600 | 163,500 |
| Powys | 133,100 | 134,600 | 135,900 | 136,500 | 136,100 | 134,600 |
| Ceredigion | 75,300 | 76,100 | 77,100 | 78,100 | 78,900 | 79,200 |
| Sir Benfro | 122,600 | 124,300 | 125,800 | 126,600 | 126,700 | 126,200 |
| Sir Gaerfyrddin | 184,000 | 188,900 | 193,900 | 198,200 | 201,700 | 204,400 |
| Abertawe | 238,700 | 245,300 | 252,200 | 258,900 | 264,700 | 269,900 |
| Castell-nedd Port Talbot | 139,900 | 141,100 | 142,200 | 142,700 | 142,600 | 142,100 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 139,400 | 143,000 | 146,200 | 148,600 | 150,100 | 151,000 |
| Bro Morgannwg | 126,700 | 128,900 | 131,000 | 132,500 | 133,500 | 133,700 |
| Caerdydd | 345,400 | 366,800 | 389,500 | 412,800 | 435,900 | 458,500 |
| Rhondda Cynon Taf | 234,400 | 235,900 | 237,100 | 237,400 | 236,700 | 235,400 |
| Merthyr Tudful | 58,900 | 60,100 | 61,200 | 62,000 | 62,300 | 62,400 |
| Caerffili | 178,800 | 181,000 | 182,800 | 183,500 | 183,300 | 182,300 |
| Blaenau Gwent | 69,800 | 69,300 | 68,900 | 68,000 | 66,800 | 65,200 |
| Tor-faen | 91,200 | 92,000 | 92,800 | 93,000 | 92,800 | 92,200 |
| Sir Fynwy | 91,500 | 92,000 | 92,300 | 92,300 | 91,600 | 90,300 |
| Casnewydd | 145,800 | 150,700 | 156,100 | 161,400 | 166,300 | 170,900 |

Mae Tabl 2 yn dangos mewn canrannau y rhagwelir y bydd y twf yn y boblogaeth ar ei uchaf mewn canolfannau trefol fel Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd ac Abertawe. Mewn cymhariaeth, rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn gostwng dros 6 y cant ym Mlaenau Gwent a thros 2 y cant yn Ynys Môn erbyn 2036. Yn achos rhai awdurdodau rhagwelir y bydd y boblogaeth yn is yn gyffredinol erbyn 2036 nag erbyn 2026.

**Tabl 2: Y Newid Canrannol Amcanol yng Nghyfanswm y Boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol o gymharu â 2011**

*Canrannau*

| | 2016 | 2021 | 2026 | 2031 | 2036 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0.4 | 0.5 | -0.1 | -1.2 | -2.7 |
| Gwynedd | 1.3 | 3.0 | 5.0 | 6.9 | 8.5 |
| Conwy | 0.6 | 1.2 | 1.3 | 0.9 | 0.0 |
| Sir Ddinbych | 2.2 | 4.4 | 6.2 | 7.3 | 8.1 |
| Sir y Fflint | 1.2 | 2.0 | 2.3 | 2.0 | 1.2 |
| Wrecsam | 4.8 | 9.4 | 13.6 | 17.4 | 21.0 |
| Powys | 1.1 | 2.1 | 2.6 | 2.2 | 1.2 |
| Ceredigion | 1.1 | 2.4 | 3.8 | 4.7 | 5.3 |
| Sir Benfro | 1.4 | 2.6 | 3.3 | 3.3 | 3.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 2.7 | 5.4 | 7.8 | 9.6 | 11.1 |
| Abertawe | 2.8 | 5.7 | 8.4 | 10.9 | 13.1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0.8 | 1.6 | 2.0 | 1.9 | 1.6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2.6 | 4.9 | 6.6 | 7.7 | 8.3 |
| Bro Morgannwg | 1.8 | 3.4 | 4.6 | 5.3 | 5.6 |
| Caerdydd | 6.2 | 12.7 | 19.5 | 26.2 | 32.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.6 | 1.2 | 1.3 | 1.0 | 0.5 |
| Merthyr Tudful | 2.1 | 4.0 | 5.3 | 5.9 | 6.1 |
| Caerffili | 1.2 | 2.2 | 2.7 | 2.5 | 2.0 |
| Blaenau Gwent | -0.7 | -1.4 | -2.6 | -4.4 | -6.6 |
| Tor-faen | 0.9 | 1.7 | 2.0 | 1.7 | 1.1 |
| Sir Fynwy | 0.6 | 0.9 | 0.8 | 0.1 | -1.3 |
| Casnewydd | 3.4 | 7.1 | 10.7 | 14.1 | 17.3 |

**Mudo Tybiedig**

Mae’r lefelau tybiedig o fudo mewnol a rhyngwladol yn seiliedig ar y niferoedd cyfartalog o fudwyr ar gyfer y pum mlynedd hyd at ganol 2011 a gedwir yn ddigyfnewid am gyfnod yr amcanestyniad. Mae Tabl 3 yn dangos bod y niferoedd tybiedig o fewnfudwyr ac allfudwyr mewnol o dan y prif amcanestyniad yn rhai miloedd fwy neu lai i bob awdurdod. Er hynny mae’r mudo mewnol *net* blynyddol tybiedig yn *llai* na mil i bob awdurdod, ac i rai mae’n llai na sero (h.y. yn gyffredinol mae all-lif i rannau eraill o’r DU). O ran mudo rhyngwladol mae’r niferoedd tybiedig o fewnfudwyr blynyddol ar eu huchaf i Wynedd, Wrecsam, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd a Chaerdydd ond i’r rhan fwyaf o awdurdodau maent yn llai na mil. Yn yr un modd, mae’r niferoedd blynyddol tybiedig o allfudwyr rhyngwladol yn fwy na mil i Gaerdydd ac Abertawe ond yn llai na hynny i awdurdodau eraill. O ganlyniad mae’r mudo rhyngwladol net blynyddol tybiedig yn fras yn rhai cannoedd neu lai i nifer o awdurdodau. Effaith yr holl dybiaethau o ran mudo mewnol a rhyngwladol yw bod cyfanswm tybiedig y mudo net blynyddol yn fras yn rhai cannoedd y flwyddyn i’r rhan fwyaf o awdurdodau ac yn negatif yn achos Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent. Dim ond Caerdydd a Sir Gaerfyrddin sydd â chyfanswm tybiedig o dros fil y flwyddyn ar gyfer mudo.

**Genedigaethau a Marwolaethau Amcanol**

Mae methodoleg yr Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu niferoedd amcanol o enedigaethau a marwolaethau yn ôl awdurdod lleol ar gyfer Cymru. Mae’r niferoedd amcanol o enedigaethau a marwolaethau yn seiliedig ar y cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau cyfartalog ar gyfer y pum mlynedd hyd at ganol 2011 ac ar y tueddiadau tybiedig o Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru. Y newid naturiol amcanol yw’r gwahaniaeth rhwng y ddwy, h.y. mae tynnu marwolaethau o enedigaethau yn hafal i newid naturiol.

Mae Tabl 4, ar sail y tybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau yn y prif amcanestyniadau, yn dangos bod mwy o farwolaethau na genedigaethau ar hyn o bryd i rai awdurdodau. Erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau rhagwelir y bydd hyn yn wir am fwy o awdurdodau, wrth i enedigaethau ostwng ac i farwolaethau gynyddu. I rai awdurdodau rhagwelir y bydd tua 300 yn fwy o farwolaethau y flwyddyn yn 2036 nag yn 2011, ac i ambell un rhagwelir y bydd tua 300 yn llai o enedigaethau bob blwyddyn. O ganlyniad rhagwelir y bydd y newid naturiol yn llai na sero i'r rhan fwyaf o awdurdodau erbyn 2036.

O ganlyniad i ddefnyddio tueddiadau o'r Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol yn y dybiaeth farwolaethau mae yna welliant tybiedig mewn cyfraddau marwolaethau oed-benodol trwy gydol cyfnod yr amcanestyniadau. Er hynny rhagwelir y bydd y cynnydd mewn marwolaethau a ddangosir yn Nhabl 4 i lawer o awdurdodau yn digwydd o ganlyniad i gynnydd ym mhoblogaethau hŷn awdurdodau lleol dros gyfnod yr amcanestyniadau.

Effaith hyn a'r tybiaethau mudo a ffrwythlondeb a ddefnyddiwyd yn y prif amcanestyniadau yw y bydd unrhyw dwf yn y boblogaeth i nifer gynyddol o awdurdodau yn ganlyniad i fudo net erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau.

**Tabl 3: Mudo Blynyddol Tybiedig yn ôl Awdurdod Lleol yng Nghymru, Prif Amcanestyniadau, 2011-2036**

| | Mudo mewnol | | | Mudo rhyngwladol | | | Cyfanswm y mudo | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mewnfudo | Allfudo | Net | Mewnfudo | Allfudo | Net | Mewnfudo | Allfudo | Net |
| Ynys Môn | 2,300 | 2,300 | - | 100 | 100 | - | 2,400 | 2,400 | - |
| Gwynedd | 5,500 | 5,400 | 100 | 1,100 | 700 | 300 | 6,500 | 6,100 | 400 |
| Conwy | 4,700 | 4,100 | 500 | 300 | 500 | -100 | 5,000 | 4,600 | 400 |
| Sir Ddinbych | 4,400 | 4,000 | 400 | 300 | 300 | - | 4,700 | 4,300 | 400 |
| Sir y Fflint | 4,500 | 4,600 | -100 | 400 | 300 | 100 | 4,900 | 4,900 | - |
| Wrecsam | 3,900 | 3,700 | 200 | 1,000 | 400 | 600 | 4,900 | 4,100 | 800 |
| Powys | 5,300 | 4,800 | 500 | 400 | 300 | - | 5,600 | 5,100 | 500 |
| Ceredigion | 5,800 | 5,700 | 100 | 700 | 500 | 100 | 6,500 | 6,300 | 200 |
| Sir Benfro | 4,000 | 3,700 | 300 | 500 | 400 | 100 | 4,500 | 4,100 | 400 |
| Sir Gaerfyrddin | 6,100 | 5,300 | 800 | 600 | 300 | 200 | 6,700 | 5,600 | 1,000 |
| Abertawe | 9,200 | 9,000 | 200 | 1,900 | 1,100 | 800 | 11,100 | 10,100 | 900 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,900 | 3,700 | 200 | 200 | 200 | - | 4,000 | 3,800 | 200 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3,900 | 3,500 | 400 | 300 | 300 | - | 4,200 | 3,700 | 400 |
| Bro Morgannwg | 4,700 | 4,500 | 200 | 300 | 300 | - | 5,000 | 4,800 | 200 |
| Caerdydd | 18,800 | 18,500 | 300 | 5,100 | 3,400 | 1,700 | 23,900 | 21,900 | 2,000 |
| Rhondda Cynon Taf | 6,000 | 6,600 | -500 | 1,000 | 600 | 300 | 7,000 | 7,200 | -200 |
| Merthyr Tudful | 1,400 | 1,400 | -100 | 200 | 100 | 100 | 1,600 | 1,500 | 100 |
| Caerffili | 4,300 | 4,300 | - | 200 | 200 | - | 4,400 | 4,500 | - |
| Blaenau Gwent | 1,600 | 1,700 | -100 | 100 | 100 | - | 1,700 | 1,800 | -100 |
| Tor-faen | 2,300 | 2,300 | -100 | 100 | 100 | - | 2,400 | 2,500 | - |
| Sir Fynwy | 4,000 | 3,800 | 300 | 200 | 300 | -100 | 4,200 | 4,000 | 200 |
| Casnewydd | 5,000 | 5,100 | -100 | 1,000 | 700 | 400 | 6,000 | 5,800 | 300 |

Noder: Efallai na fydd rhifau'n symio'n gymwys oherwydd talgrynnu.

## Tabl 4: Genedigaethau, Marwolaethau a Newid Naturiol Amcanol yn ôl Awdurdod Lleol yng Nghymru, Prif Amcanestyniadau, 2011-2036

| | Canol 2011 hyd Ganol 2012 | | | Canol 2020 hyd Ganol 2021 | | | Canol 2030 hyd Ganol 2031 | | | Canol 2035 hyd Ganol 2036 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid Naturiol | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid Naturiol | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid Naturiol | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid Naturiol |
| Ynys Môn | 800 | 800 | 0 | 700 | 800 | -100 | 600 | 800 | -200 | 600 | 900 | -300 |
| Gwynedd | 1,200 | 1,300 | -100 | 1,300 | 1,300 | 0 | 1,400 | 1,300 | 100 | 1,300 | 1,400 | -100 |
| Conwy | 1,200 | 1,500 | -300 | 1,100 | 1,400 | -300 | 900 | 1,500 | -600 | 900 | 1,600 | -700 |
| Sir Ddinbych | 1,100 | 1,100 | 0 | 1,100 | 1,100 | 0 | 1,000 | 1,200 | -200 | 1,000 | 1,200 | -200 |
| Sir y Fflint | 1,700 | 1,300 | 400 | 1,600 | 1,400 | 200 | 1,400 | 1,600 | -200 | 1,400 | 1,700 | -300 |
| Wrecsam | 1,800 | 1,300 | 500 | 1,700 | 1,300 | 400 | 1,700 | 1,500 | 200 | 1,800 | 1,600 | 200 |
| Powys | 1,300 | 1,400 | -100 | 1,200 | 1,500 | -300 | 1,000 | 1,700 | -700 | 1,000 | 1,800 | -800 |
| Ceredigion | 700 | 800 | -100 | 700 | 700 | 0 | 700 | 800 | -100 | 700 | 900 | -200 |
| Sir Benfro | 1,300 | 1,300 | 0 | 1,300 | 1,400 | -100 | 1,100 | 1,500 | -400 | 1,100 | 1,500 | -400 |
| Sir Gaerfyrddin | 2,000 | 2,100 | -100 | 2,000 | 2,100 | -100 | 1,900 | 2,300 | -400 | 1,900 | 2,400 | -500 |
| Abertawe | 2,700 | 2,400 | 300 | 2,800 | 2,300 | 500 | 2,600 | 2,400 | 200 | 2,600 | 2,500 | 100 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,600 | 1,600 | 0 | 1,500 | 1,500 | 0 | 1,300 | 1,600 | -300 | 1,300 | 1,600 | -300 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,700 | 1,400 | 300 | 1,600 | 1,500 | 100 | 1,400 | 1,600 | -200 | 1,400 | 1,700 | -300 |
| Bro Morgannwg | 1,400 | 1,100 | 300 | 1,300 | 1,200 | 100 | 1,200 | 1,300 | -100 | 1,200 | 1,400 | -200 |
| Caerdydd | 4,800 | 2,700 | 2,100 | 5,300 | 2,600 | 2,700 | 5,400 | 2,800 | 2,600 | 5,600 | 3,000 | 2,600 |
| Rhondda Cynon Taf | 3,000 | 2,500 | 500 | 2,800 | 2,400 | 400 | 2,500 | 2,500 | 0 | 2,600 | 2,600 | 0 |
| Merthyr Tudful | 800 | 600 | 200 | 700 | 600 | 100 | 600 | 600 | 0 | 600 | 700 | -100 |
| Caerffili | 2,200 | 1,700 | 500 | 2,100 | 1,700 | 400 | 1,800 | 1,900 | -100 | 1,800 | 2,000 | -200 |
| Blaenau Gwent | 800 | 800 | 0 | 700 | 800 | -100 | 600 | 800 | -200 | 600 | 800 | -200 |
| Tor-faen | 1,100 | 900 | 200 | 1,100 | 900 | 200 | 900 | 1,000 | -100 | 900 | 1,000 | -100 |
| Sir Fynwy | 800 | 900 | -100 | 800 | 900 | -100 | 700 | 1,100 | -400 | 600 | 1,100 | -500 |
| Casnewydd | 2,000 | 1,400 | 600 | 2,100 | 1,300 | 800 | 2,100 | 1,400 | 700 | 2,100 | 1,400 | 700 |

Noder: Efallai na fydd rhifau'n symio'n gymwys oherwydd talgrynnu.

**Cymharu â'r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol a oedd yn seiliedig ar 2008**

Mae'r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol sy'n seiliedig ar 2011 yn disodli'r set flaenorol o amcanestyniadau lefel awdurdodau lleol Cymru a oedd yn seiliedig ar 2008. Maent yn eu disodli am eu bod yn seiliedig ar ddata mwy diweddar, yn bwysicaf canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru.

Mae newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddir i baratoi amcangyfrifon poblogaeth yn golygu y dylai unrhyw gymhariaeth rhwng yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 ac amcanestyniadau cynt gael ei thrin â gofal. Er hynny, mae Tabl 5 isod yn dangos y gwahaniaethau yng nghyfanswm y boblogaeth yn 2011 a 2033 o dan y setiau o amcanestyniadau seiliedig ar 2008 a seiliedig ar 2011.

**Tabl 5: Cyfanswm Amcanol y Boblogaeth ar gyfer 2011 a 2033, ar sail yr Amcanestyniadau Poblogaeth seiliedig ar 2008 a seiliedig ar 2011 ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru**

| | Cyfanswm Amcanol y Boblogaeth | | | | Y Newid Canrannol yng Nghyfanswm y Boblogaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | | 2033 | | | |
| Ardal | Seiliedig ar 2008 | Seiliedig ar 2011 | Seiliedig ar 2008 | Seiliedig ar 2011 | Seiliedig ar 2008 | Seiliedig ar 2011 |
| Ynys Môn | 69,500 | 69,900 | 72,600 | 68,700 | 4% | -2% |
| Gwynedd | 119,200 | 121,500 | 126,000 | 130,700 | 6% | 8% |
| Conwy | 112,300 | 115,300 | 118,300 | 116,000 | 5% | 1% |
| Sir Ddinbych | 98,600 | 93,900 | 111,000 | 101,100 | 13% | 8% |
| Sir y Fflint | 150,600 | 152,700 | 152,100 | 155,300 | 1% | 2% |
| Wrecsam | 135,300 | 135,100 | 151,500 | 160,600 | 12% | 19% |
| Powys | 133,900 | 133,100 | 146,300 | 135,600 | 9% | 2% |
| Ceredigion | 77,900 | 75,300 | 84,600 | 79,100 | 9% | 5% |
| Sir Benfro | 119,400 | 122,600 | 129,300 | 126,600 | 8% | 3% |
| Sir Gaerfyrddin | 184,700 | 184,000 | 211,600 | 202,800 | 15% | 10% |
| Abertawe | 234,300 | 238,700 | 272,100 | 266,900 | 16% | 12% |
| Castell-nedd Port Talbot | 139,200 | 139,900 | 150,900 | 142,400 | 8% | 2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 136,400 | 139,400 | 152,100 | 150,500 | 12% | 8% |
| Bro Morgannwg | 126,700 | 126,700 | 144,600 | 133,600 | 14% | 5% |
| Caerdydd | 344,200 | 345,400 | 468,200 | 445,000 | 36% | 29% |
| Rhondda Cynon Taf | 236,000 | 234,400 | 246,400 | 236,200 | 4% | 1% |
| Merthyr Tudful | 55,900 | 58,900 | 58,100 | 62,400 | 4% | 6% |
| Caerffili | 173,900 | 178,800 | 181,900 | 183,000 | 5% | 2% |
| Blaenau Gwent | 69,100 | 69,800 | 71,400 | 66,200 | 3% | -5% |
| Tor-faen | 90,600 | 91,200 | 89,200 | 92,600 | -2% | 2% |
| Sir Fynwy | 88,900 | 91,500 | 93,900 | 91,200 | 6% | 0% |
| Casnewydd | 141,000 | 145,800 | 153,600 | 168,200 | 9% | 15% |

Bydd gwahaniaethau rhwng y ddwy set o amcanestyniadau yn ganlyniad i:

- newidiadau mewn tueddiadau hanesyddol o ran ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo
- gwahaniaethau ym methodoleg yr amcangyfrifon poblogaeth sylfaenol
- y blynyddoedd sylfaen gwahanol a ddefnyddiwyd

Er hynny, mae Tabl 5 yn dangos bod y twf amcanol yng nghyfanswm y boblogaeth i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol rhwng 2011 a 2033 yn is o dan yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 nag o dan yr amcanestyniadau seiliedig ar 2008.

### Gwybodaeth am Ansawdd

Yn ychwanegol at yr wybodaeth isod, mae mwy o wybodaeth yma:
http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-population-projections/frequently-asked-questions/?lang=cy

### Perthnasedd

Mae ystadegau poblogaeth a mudo yn bwysig ar gyfer datblygu polisïau, a chynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae galw mawr am ystadegau poblogaeth a mudo at amrywiaeth o ddibenion. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Cynllunio gwasanaethau ac amcangyfrif anghenion y dyfodol ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol, e.e. ysgolion, darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Yn rhan o'r setliad refeniw Cyllid Llywodraeth Leol.
- Datblygu polisi.
- Cyngor i Weinidogion.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer trafodaethau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt.
- I gyfrifo rhagor o ystadegau, e.e. Ardaloedd Cynllun Gofodol, Amcangyfrifon Tai ac Amcanestyniadau Aelwydydd.
- Fel enwaduron mewn cyfraddau (e.e. cyfraddau geni).
- At ddibenion pwysoli arolygon.
- Proffilio, cymariaethau a meincnodi daearyddol.
- Dadansoddi carfannau poblogaeth a thueddiadau mudo.

Mae amrywiaeth eang o bobl yn defnyddio data poblogaeth gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a mudiadau'r sector gwirfoddol, adrannau eraill o'r llywodraeth, myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion, dinasyddion unigol a chwmnïau preifat. Yn benodol mae cryn ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer y dyfodol, er mwyn darparu gwasanaethau a helpu i lunio polisïau cynaliadwy, ystyried y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw. Gall amcanestyniadau poblogaeth nodi tueddiadau sy'n ffurfio'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol.

Mae galwadau tebyg am amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio. Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol yw'r sylfaen ar gyfer paratoi amcanestyniadau aelwydydd sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cynllunio tai, e.e. fe'u hystyrir wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

### Ffynhonnell y Data a Diffiniadau

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (h.y. ar 30 Mehefin bob blwyddyn). Caiff amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn i Gymru a Lloegr eu paratoi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Er mwyn paratoi'r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol caiff yr amcangyfrifon poblogaeth eu cyfuno â thybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau cynt.

Mae'r tybiaethau ar gyfer yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 wedi'u paratoi gan ddefnyddio data o amcangyfrifon poblogaeth canol 2011 ac o'r amcangyfrifon poblogaeth a mudo diwygiedig ar gyfer canol 2002 hyd ganol 2010 a gyhoeddwyd gan yr ONS ar 30 Ebrill 2013, gan gynnwys niferoedd gwirioneddol o enedigaethau a marwolaethau ac amcangyfrifon mudo. Oherwydd amseriad rhyddhau'r amcangyfrifon diwygiedig nid oedd modd cynnwys yn ogystal ddata o amcangyfrifon poblogaeth canol 2012 a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2013.

O ran mudo defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fudwr rhyngwladol – un sy'n newid y wlad y mae'n byw ynddi am gyfnod o 12 mis o leiaf. Ni chaiff mudwyr tymor byr (e.e. gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) eu cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth.

**Ansawdd**

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth hyn yn Ystadegau Gwladol. Caiff Ystadegau Gwladol eu paratoi yn unol â safonau proffesiynol uchel a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Byddant yn destun adolygiadau sicrhau ansawdd rheolaidd i sicrhau eu bod yn ateb anghenion cwsmeriaid. Cânt eu paratoi heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 a chan ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Gellir dehongli dynodiad yn fras i olygu bod yr ystadegau:
- Yn ateb anghenion dynodedig defnyddwyr;
- Wedi'u hegluro'n dda ac ar gael yn rhwydd;
- Wedi'u paratoi drwy ddulliau cadarn, ac
- Yn cael eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er budd y cyhoedd.

Ar ôl i ystadegau gael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol mae'n ofyniad statudol sicrhau bod y Cod Ymarfer yn parhau i gael ei ddilyn.

Mae **amcanestyniadau poblogaeth** yn amcanestyniadau seiliedig-ar-dueddiadau sy'n rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent wedi'u seilio ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau yn gyffredinol yn seiliedig ar dueddiadau cynt. Nid yw amcanestyniadau a wneir fel hyn yn cymryd i ystyriaeth effeithiau polisïau llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog ar lefelau a dosbarthiad y boblogaeth, ac ar newid ynddi, yn y dyfodol.

Mae i amcanestyniadau poblogaeth, felly, eu cyfyngiadau. Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth hyn ar gyfer awdurdodau lleol yn rhagolygon seiliedig ar bolisi. Dim ond dangos y maent yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol petai'r tybiaethau seiliedig-ar-dueddiadau yn dod yn wir.

Gan fod y broses o newid demograffig yn un gronnol, aiff amcanestyniadau yn fwyfwy ansicr y pellaf ymlaen yr eir â hwy. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau yn gynt ac yn fwy nag ar eraill. Oherwydd maint y ffrydiau mudo amcangyfrifedig, i rai awdurdodau lleol mae tybiaethau mudo yn bwysicach na thybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, gall tybiaethau mudo gael effaith sylweddol ar rai ardaloedd yn y tymor hir.

Byddai'n amhosibl i unrhyw amcanestyniadau fod yn gwbl gywir – bydd newidiadau yn yr economi, newidiadau yn ymddygiad unigolion, teuluoedd ac aelwydydd a digwyddiadau y tu allan i'r DU yn codi ac yn dylanwadu ar y tair prif elfen sy'n rhan o newid mewn poblogaeth. Dangosir effeithiau posibl yr ansicrwydd hwn drwy baratoi prif amcanestyniad a nifer o amcanestyniadau amrywiadol. Mae'r amrywiolion hyn yn cynnig senarios credadwy eraill yn ôl tybiaethau uchel neu isel ynghylch cyfeiriad y cyfraddau ffrwythlondeb, mudo a marwolaethau; gellir eu cyfuno hefyd i weld yr effaith ar yr amcanestyniadau o, er enghraifft, dybiaeth poblogaeth 'ifanc' (tybiaethau ffrwythlondeb uchel, mudo uchel a disgwyliad oes isel). Bydd amcanestyniadau amrywiadol yn cael eu cyhoeddi yn y misoedd nesaf yn adroddiad manwl yr Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol seiliedig ar 2011.

Argymhellir bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r amcanestyniadau cyhoeddedig hyn yn fan cychwyn, ac fe'u hanogir i baratoi eu hamcanestyniadau a'u senarios amrywiadol eu hunain os bydd angen. Mae'r feddalwedd PopGroup a ddefnyddiwyd i baratoi'r amcanestyniadau ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ac (fel mewn cylchoedd rhagamcanu blaenorol) bydd caniatâd yn cael ei geisio gan yr ONS i rannu'r data sylfaen a ddefnyddiwyd fel y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r data i greu eu hamrywiolion eu hunain os dymunant.

## Methodoleg

Caiff Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol eu paratoi yn defnyddio dull demograffig sefydlog a elwir y dull elfennau carfan. Yn syml, mae hyn yn golygu:

- Cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn ddiweddaraf;
- Cymryd grwpiau poblogaeth arbennig allan;
- Ychwanegu blwyddyn at oed pob person;
- Adio genedigaethau a thynnu marwolaethau;
- Ystyried mewnfudo ac allfudo;
- Ychwanegu'r grwpiau poblogaeth arbennig unwaith eto.

Caiff y data sylfaen a ddefnyddir i wneud y cyfrifiadau eu paratoi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyflawnir y broses hon ar gyfer pob awdurdod unedol yng Nghymru am oes yr amcanestyniad, sydd fel arfer yn bum mlynedd ar hugain. Er mwyn paratoi amcanestyniadau poblogaeth, mae angen llunio tybiaethau i ragweld lefelau'r dyfodol o ffrwythloneb, marwolaethau a mudo i bob awdurdod lleol. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau lleol mewn blynyddoedd diweddar.

Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr amcanestyniadau hyn gan gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru – trwy weithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru. Cyfarfu'r grŵp hwn yn rheolaidd yn ystod cyfnod paratoi'r amcanestyniadau ac mae wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaethau technegol ar y fethodoleg a'r data sylfaen i'w defnyddio. Mae aelodau'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol sydd â gwybodaeth ac/neu brofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth.

Nid oes canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i baratoi'r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol seiliedig ar 2011 wedi'u cyhoeddi eto. Mae canllawiau manwl ar y fethodoleg ar gyfer amcanestyniadau blaenorol ar gael yn:
http://wales.gov.uk/topics/statistics/publications/2008populationtechnical/?lang=cy

## Diwygiadau a newidiadau

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth hyn sy'n seiliedig ar 2011 yn disodli'r amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2008 ac yn cymryd i ystyriaeth y data diweddaraf y gellir seilio tueddiadau arnynt. Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth hyn wedi'u diwygio o gwbl. Fodd bynnag, mae newidiadau wedi'u gwneud yn ddiweddar i'r dulliau a ddefnyddir i baratoi'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y maent yn seiliedig arnynt. Eglurir y newidiadau hyn isod.

O ganol 2011 ymlaen, ystyrir bod carcharorion fel arfer yn preswylio mewn sefydliad os ydynt wedi'u dedfrydu i garchar am chwe mis neu fwy. O'r blaen, ystyrid bod carcharorion fel arfer yn preswylio os oeddent wedi'u dedfrydu i garchar ac eisoes wedi bod yn y carchar am chwe mis neu fwy. Newidiwyd y diffiniad hwn er mwyn bod yn fwy cyson â diffiniad Cyfrifiad 2011 o breswylfa arferol i garcharorion.

Cyn canol 2011, câi disgyblion preswyl eu trin fel poblogaeth arbennig am na chredid bod eu symudiadau'n cael eu casglu yn y ffynonellau data a ddefnyddid i amcangyfrif mudo mewnol. Fodd bynnag, mae ymchwil bellach wedi dangos bod symudiadau disgyblion preswyl yn cael eu mesur yn yr amcangyfrifon mudo mewnol ac felly ni fydd yr elfen hon yn cael ei chynnwys mwyach yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn. O ganlyniad, triniwyd disgyblion preswyl fel poblogaeth arbennig yn yr Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol seiliedig ar 2006 a seiliedig ar 2008 ond nid felly y bydd yn amcanestyniadau'r presennol a'r dyfodol.

Caiff yr amcangyfrifon poblogaeth a wneir rhwng blynyddoedd cyfrifiad eu diwygio ar ôl y cyfrifiad diweddaraf er mwyn darparu cyfres gyson o amcangyfrifon poblogaeth dros amser. Mae hyn yn osgoi

newid sylweddol yn yr amcangyfrifon pan gânt eu hailseilio yn defnyddio cyfrifon cyfrifiad newydd. Diwygiwyd yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2002-2010 i gymryd i ystyriaeth ganlyniadau Cyfrifiad 2011 ar lefel genedlaethol ar 13 Rhagfyr 2012 ac ar lefel awdurdodau lleol ar 30 Ebrill 2013. Cafodd y newid yn y ffordd yr ystyrir symudiadau disgyblion preswyl yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn ei roi ar waith ynghyd ag addasiadau eraill adeg paratoi'r amcangyfrifon diwygiedig hyn. Yn yr un modd, ni chaiff disgyblion preswyl eu trin mwyach fel poblogaeth arbennig yn yr Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol.

### Cymaroldeb

Oherwydd y diwygiadau i'r dulliau a ddefnyddir i baratoi amcangyfrifon poblogaeth nid yw sylfaen yr Amcanestyniadau Poblogaeth seiliedig ar 2011 ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru yn uniongyrchol gymaradwy â sylfaen yr amcanestyniadau seiliedig ar 2008 neu seiliedig ar 2006. Felly mae angen trin unrhyw gymhariaeth ag amcanestyniadau cynt â gofal.

Mae'r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol hefyd yn defnyddio dull gwahanol i'r un a ddefnyddir ar gyfer yr Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol. O ganlyniad nid yw cyfanswm cyfanredol yr Amcanestyniadau Awdurdodau Lleol yn hafal i Amcanestyniad Poblogaeth Cenedlaethol Cymru ar gyfer blwyddyn benodol. Ceir canllawiau ar sut i ddefnyddio'r Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol ac Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol Cymru yn adroddiad cryno'r amcanestyniadau seiliedig ar 2006 sydd ar gael yma:
http://wales.gov.uk/topics/statistics/publications/publication-archive/popprojsum06/?lang=cy

### Amlder

Caiff Amcanestyniadau Poblogaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru eu paratoi fel arfer bob dwy flynedd. Roedd y set ddiwethaf o amcanestyniadau yn seiliedig ar 2008. Ni pharatowyd set o amcanestyniadau'n seiliedig ar 2010; yn hytrach penderfynwyd paratoi'r set nesaf yn seiliedig ar 2011 er mwyn cynnwys canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn y boblogaeth sylfaen cyn gynted ag y byddai'n ymarferol. Ar ôl hyn disgwylir i'r set nesaf o Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol fod yn seiliedig ar 2012 neu ar 2014. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ôl ymgynghori â defnyddwyr a'r ONS.

### Allbynnau Cysylltiedig

Gellir cael gafael ar ragor o ddata poblogaeth ar gyfer Cymru gan gynnwys amcanestyniadau poblogaeth drwy wefan Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru | Ystadegau'r boblogaeth a'r cyfrifiad

Cyhoeddir amcangyfrifon poblogaeth canol 2012 ar gyfer Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac maent ar gael yn:
http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/index.html

Cyhoeddir Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol, gan gynnwys Cymru, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn seiliedig ar 2010 ac maent ar gael yn:
http://www.ons.gov.uk/ons/rel/npp/national-population-projections/2010-based-projections/index.html

**Mwy o Wybodaeth**
Mae ystadegau poblogaeth manwl yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran ar gael ar StatsCymru:
https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalog

Rydym yn awyddus iawn i gael adborth gan ein defnyddwyr. Os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch â ni.

Am ymholiadau ar Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru, neu ymholiadau cyffredinol ar ddata demograffig, cysylltwch ag:

Ystadegau Demograffeg, Treftadaeth a Chydraddoldeb
Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk
ffôn: 029 2082 1595